# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Tachwedd 2019

Amser: 13.05 - 16.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5629

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Adam Price AC |
| Tystion: | Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>Peter Kennedy, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru<br>Jeff Farrar, Llywodraeth Cymru<br>Natalie Pearson, Llywodraeth Cymru<br>Ann Keane, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mike Usher<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC a Jenny Rathbone AC.

1.3 Gwnaeth y Cadeirydd ddatganiad mewn perthynas â digwyddiadau diweddar ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau Llythyr gan Lywodraeth Cymru (31 Hydref 2019)

## 3 Ffordd liniaru'r M4: Trafod yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

3.1 Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch ffordd liniaru’r M4 a chytunodd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau gyda barn y Pwyllgor i helpu i hwyluso unrhyw waith y mae'r Pwyllgor yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol yn dilyn yr Adolygiad Burns.

## 4 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru

4.1 Cynhaliodd y Pwyllgor y drydedd sesiwn graffu gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

4.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i anfon adroddiad cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ynghylch gwaith gweithgor Llywodraeth Cymru ar gyfer hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru

6.1 Fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, trafododd yr Aelodau rôl cyfarwyddwyr anweithredol gydag Ann Keane a Jeff Farrar.

## 7 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, cafodd yr eitem hon ei gohirio.